ASTUDIAETH ACHOS:

Tanwydd Niwclear y Deyrnas Unedig: Cyfraniad Gwerthfawr

GWYBODAETH ALLWEDDOL

SAFLE:
Urenco UK, Capenhurst, y Deyrnas Unedig

CAPASITI:
4,600tSW y flwyddyn

GWEITHWYR:
350 o bobl

GWEITHREDIADAU CYNTAF:
1971

Trosolwg o'r Project

Mae ein cyfleuster yn y Deyrnas Unedig yn Sir Gaer wrth galon Pwerdy'r Gogledd ac yn agos at brojectau adeiladu newydd a safle Westinghouse Springfields. Mae ein cyfleuster yn Swydd Gaer yn cyflogi gweithlu medrus iawn o 350 o bobl, yn bennaf o Ogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru, gan sicrhau bod sgiliau ac arbenigedd yn y diwydiant niwclear sifil yn aros yn y rhanbarth.

Manylion y datrysiad/dull gweithredu

Mae gan Urenco hanes balch o fod yn arweinydd yn y diwydiant niwclear sifil am 50 mlynedd, gyda chysylltiadau hirdymor â chwsmeriaid wrth wraidd ein busnes cynaliadwy. Mae ein cyfleuster yn y Deyrnas Unedig mewn lle da i gefnogi projectau adeiladu newydd y maes niwclear yn y Deyrnas Unedig, gyda chyflenwad cystadleuol a dibynadwy o wasanaethau cyfoethogi a chynhyrchion cylch tanwydd niwclear am oes gyfan adweithyddion newydd. Yn ogystal, mae gennym gyfleusterau cyfoethogi yn yr Iseldiroedd, yr Almaen ac Unol Daleithiau'r America. Mae ein hamrywiaeth ddaearyddol yn ein galluogi i ymateb yn hyblyg i'r galw a sicrhau diogelwch cyflenwad bob amser.

urenco The Energy to Succeed | 50 YEARS

"Mae Urenco yn gyflenwr dibynadwy sy'n gweithredu gyda gonestrwydd yn eu holl weithrediadau busnes."

urenco The Energy to Succeed

NORTH WEST NUCLEAR ARC

Copyright © 2020 NWNA